# Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 2 Mehefin 2025

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# O bell – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau Dim Gweithdrefn**

**3.2 SL(6)608 – Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025**

(Tudalennau 1 - 5)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 – Papur 19 – Adroddiad

LJC(6)-17-25 – Papur 20 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 - 13.45)

**4.1 Gohebiaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru: Cyfarfodydd y grwpiau rhyngweinidogol**

(Tudalen 6)

**Dogfennau atodol:**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

LJC(6)-17-25 – Papur 21 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach, 30 Mai 2025

## 5 Papurau i'w nodi

(13.45 – 13.50)

**5.4 Cyflwyniad ar gyfer ymchwiliad Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi i graffu ar gytuniadau**

(Tudalennau 7 – 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-17-25 – Papur 22 – Cyflwyniad

# SL(6)608 – [SL(6)608 - Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025]

## Cefndir a diben

Gwnaed Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ("Rheoliadau 2022") ym mis Rhagfyr 2022 i ymdrin ag unrhyw fethiant mewn cyfraith a gymathwyd i weithredu'n effeithiol, a chywiro diffygion eraill a ddeilliodd o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, roedd Rheoliadau 2022 yn cadw ac yn breinio swyddogaethau i Weinidogion Cymru a oedd wedi'u cynnwys yn flaenorol yng Nghyfarwyddebau'r UE.

Un swyddogaeth o'r fath oedd yr un a roddwyd gan erthygl 5(5)(a) o'r Gyfarwyddeb Ceffylau[1] a fwriadwyd, fel y'i haddaswyd gan Reoliadau 2022, i ganiatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer amser o'r flwyddyn pan y ceid anfon ceffylau o rannau o drydydd gwledydd ag achos o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau i Gymru.

Nododd [adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2022], ymhlith pwyntiau adrodd eraill, nad oedd cyfeiriad at erthygl 5(5)(a) o'r Gyfarwyddeb Ceffylau wedi'i gynnwys yn yr Atodlen i Reoliadau 2022. Mae'r hepgoriad hwn yn golygu nad yw erthygl 5(5)(a) o'r Gyfarwyddeb Ceffylau, fel y'i haddaswyd gan Reoliadau 2022, yn bŵer gwneud rheoliadau gweithredol.

Mae Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 20255 ("y Gorchymyn") yn cywiro'r gwall hwn drwy ddiwygio'r addasiad o erthygl 5(5)(a) yn Rheoliadau 2022. Fel y'i diwygiwyd, mae erthygl 5(5)(a) ddiwygiedig yn darparu mai dim ond yn ystod cyfnodau penodol o'r flwyddyn y mae'n rhaid i geffylau gael eu hanfon, gan roi sylw i weithgaredd pryfed fector, sydd i'w penderfynu drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 10 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ("Deddf 1981").

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae gorchmynion adran 10 yn galluogi darpariaeth gyfatebol i gael ei gwneud i'r swyddogaeth a gafodd ei hepgor ar gam o'r Atodlen i

[1] Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/156/EC ar gyflyrau iechyd anifeiliaid sy'n llywodraethu symud a mewnforio ceffylau o drydydd gwledydd.

Reoliadau 2022. Bydd y diwygiad yn galluogi unrhyw orchymyn a wneir o dan adran 10 o Ddeddf 1981 at ddibenion Clefyd Affricanaidd y Ceffylau i gael ei ymgorffori o fewn cyfundrefn orfodi'r fasnach mewn anifeiliaid a chynhyrchion cysylltiedig ("TARP").

## Y weithdrefn

Dim gweithdrefn.

Mae Deddf 1981 yn darparu bod rhaid i'r Gorchymyn gael ei osod gerbron y Senedd ar ôl iddo gael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Gorchymyn yn cywiro gwall yn Rheoliadau 2022 ac, yn unol â pharagraff 2.2 o'r Memorandwm Esboniadol, bydd y weithdrefn cyhoeddi am ddim yn cael ei defnyddio. Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad oes baner na phrif nodyn ar y Gorchymyn sy'n egluro ei bod yn cael ei gwneud i gywiro gwall mewn offeryn cynharach ac y bydd yn cael ei rhoi am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr offeryn hwnnw.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Gorchymyn yn cywiro mater sy'n weddill a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2022. Erys un mater arall a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw nad yw Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael ag ef, eto. Mae hyn yn ymwneud â phwynt adrodd 30, a nododd fod Rheoliadau 2022 yn creu pwerau Harri VIII sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Mewn ymateb, yn ystod y ddadl ar Reoliadau 2022, ymrwymodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, ar y pryd, i newid hyn i'r weithdrefn gadarnhaol.

Esboniodd ohebiaeth gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 9 Medi 2024 a 18 Hydref 2024 nad oedd unrhyw drosglwyddiadau addas wedi'u canfod, eto, i gyflawni'r newid hwn i'r weithdrefn, ac nad oedd cyfrwng deddfwriaethol addas ar gael ar hyn o bryd i wneud y newid drwy gyfrwng Bil neu offeryn statudol Cymru. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw hyn yn parhau i fod yn wir.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Daeth y Gorchymyn i rym ar 31 Mawrth 2025. Cyflwynodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiad i'r Senedd ar Reoliadau 2022, gan gynnwys nodi'r gwall yr ymdrinnir ag ef yn y Gorchymyn, ar 12 Rhagfyr 2022. Daeth Rheoliadau 2022 i rym ar 16 Rhagfyr 2022.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro a fu unrhyw effaith ymarferol o ran y gwall yn Rheoliadau 2022 yn parhau ar y llyfr statud ers dros ddwy flynedd.

4. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodir nad yw gorchmynion o dan adran 10 o Ddeddf 1981 yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd, gan eu bod yn ddarostyngedig yn unig i ofyniad bod y gorchymyn yn cael ei osod gerbron y Senedd ar ôl iddo gael ei wneud.

Oni bai am y gwall yn Rheoliadau 2022, byddai unrhyw reoliadau a wneir o dan erthygl 5(5)(a) o'r Gyfarwyddeb Ceffylau wedi'i haddasu wedi bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (gweler rheoliad 6 o Reoliadau 2022), gan roi cyfle i Aelodau o'r Senedd gyflwyno cynnig i ddirymu'r rheoliadau. Nid oes cyfle o'r fath mewn perthynas â gorchymyn o dan adran 10 o Ddeddf 1981.

5. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae adran 91(1) o Ddeddf 1981 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad yn y London Gazette a'r Edinburgh Gazette yn datgan bod y Gorchymyn wedi'i wneud a lle y gellir cael copïau o'r Gorchymyn. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau bod hysbysiad o'r fath wedi'i gyhoeddi.

6. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae adran 91(2) o Ddeddf 1981 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi, ar ei draul ei hun, bob gorchymyn a anfonir atynt gan Weinidogion Cymru yn y modd a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru neu, yn absenoldeb unrhyw gyfarwyddyd o'r fath, drwy hysbyseb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr awdurdod lleol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gymryd y camau a ganlyn:

a) cadarnhau bod y gorchymyn wedi'i anfon at awdurdodau lleol i'w gyhoeddi, a hefyd

b) a yw Llywodraeth Cymru wedi asesu goblygiadau ariannol posibl y gofyniad i gyhoeddi'r Gorchymyn ac unrhyw orchmynion adran 10 a wneir yn y dyfodol fel rhan o'r drefn orfodi TARP i awdurdodau lleol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer pwyntiau adrodd 1, 2, 3, 5 a 6.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn y Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2025**

Pwynt Craffu Technegol 1: Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, y bwriad oedd cyhoeddi Gorchymyn 2025 o dan y weithdrefn cyhoeddi am ddim, ond oherwydd amryfusedd gweinyddol, ni wnaed hyn. Yn lle hynny, bydd Gorchymyn 2025 bellach yn cael ei ailgyhoeddi fel ailargraffiad cywiro, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn cyhoeddi am ddim.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau nad yw'r sefyllfa wedi newid ac nad oes unrhyw ddarpar gyfrwng deddfwriaethol na chyfrwng deddfwriaethol addas ar gael ar hyn o bryd i fynd i'r afael â phwynt adrodd 30.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Ymhellach i'r llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Huw Irranca-Davies AS dyddiedig 9 Medi 2024, nid oes unrhyw effeithiau wedi eu dwyn i'n sylw.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 5: Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau bod yr hysbysiadau wedi eu cyhoeddi yn y London Gazette a'r Edinburgh Gazette.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 6: Nid yw adran 91(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn rhwymo Gweinidogion Cymru i anfon Gorchmynion i'r awdurdodau lleol.

Mewn cysylltiad â'r ymholiadau a godir yn adroddiad y pwyllgor:

a) gall Llywodraeth Cymru gadarnhau na chafodd y Gorchymyn hwn ei anfon i awdurdodau lleol;

b) ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Gorchymyn hwn. Mewn cysylltiad ag unrhyw Orchmynion adran 10 yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn briodol fesul achos.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

30 Mai 2025

Annwyl Mike

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach wedi'i drefnu ar gyfer 2 Mehefin 2025.

Y cyfarfod hwn fydd y cyfarfod cyntaf ers nifer o gyhoeddiadau masnach pwysig gan gynnwys cytundebau masnachu'r DU â'r Unol Daleithiau ac â India, a bydd yn trafod y cytundebau hyn yn ogystal â'r ymgysylltu a fu rhwng gweinyddiaethau'r DU.

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Ymchwiliad i broses graffu'r DU ar gytuniadau

## Tystiolaeth y Pwyllgor

21 Mai 2025

Fel y nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw'r pwyllgor cyfrifol ar gyfer materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol.

## 1. Cefndir

**1.** Mae Llywodraeth y DU yn negodi ac yn cytuno ar gytuniadau ar ran y DU drwy'r Uchelfraint Frenhinol. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgynghori â'r llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig, ond y sefydliadau hyn sy'n aml yn gyfrifol am roi cytuniadau ar waith, a rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU.

**2.** Gall gweithredu cytundebau rhyngwladol ddod o fewn cymhwysedd y Senedd, gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, a dod yn gyfrifoldeb cyrff cyhoeddus Cymru o ran eu cyflawni, fel y cydnabyddir gan y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS. Gallant hefyd olygu bod angen cyflwyno newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru.

**3.** Ym mis Ionawr 2019 yn ystod trafodaethau Brexit, y Senedd oedd y senedd ddatganoledig gyntaf i sefydlu dull pwrpasol ar gyfer craffu ar gytundebau rhyngwladol, a oedd wedi'i arwain ar y pryd gan y Pwyllgor Materion Allanol.

**4.** Roedd y broses yn dilyn y cytuniadau a osodwyd yn Senedd y DU o dan y broses a ffurfiolwyd yn Neddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Gofynnodd a oedd cytundeb yn cwmpasu meysydd datganoledig, neu a oedd ganddo oblygiadau polisi pwysig i Gymru. Pe byddai, byddai'r pwyllgor yn archwilio a oedd materion arwyddocaol wedi cael sylw ac yn hysbysu'r Senedd, Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU, a seneddau eraill y DU.

## Proses newydd yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2021

**5.** Ar ôl etholiadau 2021, newidiodd y broses hon. Bellach, mae cytuniadau'n cael eu hystyried i ddechrau gan un o ddau bwyllgor yn y Senedd, yn dibynnu a ydynt yn gytundebau masnach ai peidio.

**6.** Mae'r rhan fwyaf o'r cytuniadau yn gytundebau anfasnachol ac maent wedi cael eu hystyried gan ein Pwyllgor ers ein sefydlu ym mis Mehefin 2021. Hyd yn hyn, rydym wedi ystyried 88 o gytuniadau. Rydym yn cael gwybodaeth yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ac yn hysbysu pwyllgorau eraill y Senedd am gytuniadau sydd o fewn eu cylch gwaith. Rydym yn cyflwyno adroddiadau ar ein hasesiadau a'n canfyddiadau i'r Senedd ac yn rhannu ein hadroddiadau gyda'ch Pwyllgor. Mae'r cyflwyniad hwn yn crynhoi'r themâu allweddol sy'n codi o'n gwaith.

**7.** Mae cytundebau masnach y DU yn cael eu hystyried gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig. Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliadau ar y cytundeb rhwng y DU a Seland Newydd a'r cytundeb rhwng y DU ac Awstralia i ddeall eu heffaith ar Gymru. Mae crynodeb o'r ddau mewn erthygl ymchwil gan Ymchwil y Senedd. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried cytundebau masnach sylweddol eraill, fel y cytundeb gyda Wcráin a'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, ac mae'n monitro datblygiadau newydd rhwng y DU ac UDA a'r DU ac India.

## Pwysigrwydd craffu datganoledig


**8.** Mae proses y Senedd wedi gwneud y canlynol:

- cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru na fyddai fel arall yn cael ei rhoi i'r Senedd na Senedd y DU, gan gynnwys ar gyfer ymchwiliadau pwyllgor sy'n mynd rhagddynt;
- sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus;

- gwella ein dealltwriaeth o oblygiadau datganoledig rhwymedigaethau rhyngwladol o safbwynt cyfansoddiadol ac ymarferol;
- darparu gwybodaeth newydd am ffyrdd rhynglywodraethol o weithio. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu am ei lefel o ymwneud â negodi a gweithredu cytundebau rhyngwladol; a oedd ganddi wybodaeth flaenorol fod cytundeb wedi'i gwblhau; lle mae Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y pedair llywodraeth ar gyfer rhai categorïau o gytundebau rhyngwladol; y cysylltiadau rhwng cytundebau rhyngwladol lluosog a mecanweithiau domestig; dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'i rhwymedigaethau rhyngwladol; a lle mae ganddi farn wahanol i Lywodraeth y DU;
- hysbysu'r Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol am achosion lle mae disgrifiadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o gyfraniadau datganoledig yn ystod y broses o ddatblygu cytuniad wedi bod yn groes i'w gilydd;
- nodi lle mae gwybodaeth am ddatganoli ar goll o ddogfennau cytuniadau, gan gynnwys ar gyfranogiad Llywodraeth Cymru a barn Llywodraeth y DU ar gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig;
- sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn eglur pryd mae Biliau'r DU sy'n destun cydsyniad y Senedd yn croestorri â rhwymedigaethau rhyngwladol, ac i roi rhagor o wybodaeth.

## Y Senedd a Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010

**9.** Nid yw gwaith craffu gan y Senedd ar gytuniadau bob amser yn bosibl o fewn cyfnod cychwynnol 21 diwrnod Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Fodd bynnag, mae ein proses yn profi bod mewnbwn gan ddeddfwrfeydd datganoledig yn bosibl ac y gall arwain at ganlyniadau pwysig, er gwaethaf cyfyngiadau'r Ddeddf. Mae'r ffeithlun ar y dudalen nesaf yn dangos proses y Ddeddf ochr yn ochr â phroses y Senedd.




## 2. Materion allweddol

**10.** Yn bwysig i'r Senedd, nid yw Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn rhoi rôl ffurfiol i'r deddfwrfeydd datganoledig, ac nid yw'n cynnwys dyletswydd i ymgynghori â'r deddfwrfeydd datganoledig cyn i Senedd y DU ddod i'w chasgliadau.

**11.** Mae'r broses seneddol ar gyfer craffu ar gytundebau rhyngwladol yn golygu bod Senedd y DU yn cyfrannu ar ddiwedd y broses, cyn y cam cadarnhau. Yn ddiweddar **nododd y Pwyllgor** y gallai ei waith craffu gynnwys cyfnewid gohebiaeth â Llywodraeth Cymru i geisio rhagor o wybodaeth. Oherwydd hynny, efallai na fydd bob amser yn bosibl cwblhau gwaith craffu o fewn y cyfnod cychwynnol 21 diwrnod a roddwyd i Senedd y DU o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, ac felly ni fyddai'n bosibl rhannu gwybodaeth berthnasol i lywio ei gasgliadau.

**12.** Roedd gwybodaeth yn ymwneud â datganoli mewn Memorandwm Esboniadol cytundeb blaenorol yn anghyson. Nododd y Pwyllgor yn flaenorol nad oedd unrhyw wybodaeth ar gael am gyfranogiad Llywodraeth Cymru, nac eglurder ynghylch barn Llywodraeth y DU ar gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig. Nodwn a chroesawn fod y wybodaeth ganlynol fel arfer yn cael ei chynnwys bellach: (i) asesiad cymhwysedd lefel uchel, (ii) cadarnhad yr ymgynghorwyd â llywodraethau datganoledig/nad ymgynghorwyd â llywodraethau datganoledig, a (iii) cadarnhad bod y llywodraethau datganoledig yn fodlon. Fodd bynnag, nid yw'r lefel hon o fanylder yn adlewyrchu goblygiadau ymarferol gweithredu cytuniadau. Yn aml, mae'r Pwyllgor yn dysgu gwybodaeth am y tro cyntaf yn ystod gohebiaeth â Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, gwnaeth y cyn Brif Weinidog, Mark Drakeford AS, mewn perthynas â Chonfensiwn Nawdd Cymdeithasol y DU a'r Swistir, amlinellu cylch gwaith a chyfrifoldebau pob Llywodraeth Cymru, y Senedd a Byrddau Iechyd Lleol. Ar ben hynny, nid yw'r Memoranda Esboniadol safonol ar gyfer cytuniadau yn cynnwys adrannau a geir fel arfer mewn dogfennau sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth ddomestig, megis tablau cymhwysiad tiriogaethol neu asesiadau effaith a fyddai'n ychwanegiadau defnyddiol.

**13.** Mae enghreifftiau o arferion gorau yn bodoli y gellid eu defnyddio fel glasbrint. Mae ein hystyriaeth o'r Confensiwn ar atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a thrais domestig gan Gyngor Ewrop yn parhau i fod yr enghraifft orau hyd yma. Roedd ei ddogfennau cysylltiedig yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ddatganoli, gan gynnwys rhestru erthyglau penodol yn cynnwys dyletswyddau'r llywodraethau datganoledig. Ar ben hynny, o ganlyniad i **ofyniad cyfreithiol** ar wahân i lunio adroddiad ar weithrediad y Confensiwn hyd at ei gadarnhau, roedd llawer mwy o wybodaeth ar gael yn hawdd i gynorthwyo'r Pwyllgor yn ei ystyriaeth nag sydd fel arfer. Taflodd ymateb Llywodraeth Cymru fwy o oleuni eto ar y gwahaniaethau polisi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a llywiodd **ymchwiliad byw gan y Senedd** i brofiadau menywod mudol o drais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol.

**14.** Mae deddfwriaeth ar ôl Brexit wedi lleihau'r rôl graffu a roddir i Senedd y DU mewn rhai meysydd drwy awdurdodi defnydd o is-ddeddfwriaeth i weithredu cytundebau rhyngwladol. Rhybuddiodd y Pwyllgor o'r risg y gallai'r Senedd gael ei gadael allan o brosesau o'r fath, gan gynnwys mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, yn ystod ei waith craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Iechyd a Gofal. Sicrhaodd diwygiadau dilynol i'r Bil fod y Senedd yn parhau i allu cael gwybodaeth a chraffu ar drefniadau gweithredu o dan gytundebau gofal iechyd rhyngwladol yn y dyfodol ac yn craffu arnynt, er y byddai hynny drwy'r weithdrefn negyddol.

**15.** Nodwn adroddiad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, *Craffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol eraill yn yr 21ain ganrif*, y gwnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar iddi. Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir i rôl llywodraethau a seneddau datganoledig, ac yn cefnogi ei alwad am ddigon o amser i ganiatáu i'n canfyddiadau gael eu cynnwys mewn modd ystyrlon ym mhroses graffu'r Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn San Steffan.

# 3. Casgliadau

**16.** Mae Llywodraeth y DU yn cytuno ar gytundebau rhyngwladol a all addasu cymhwysedd y Senedd, ymdrin â materion o fewn cymhwysedd y Senedd neu faterion sydd â goblygiadau polisi pwysig i Gymru. Gall gweithredu'r cytundebau hyn olygu bod angen newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru, gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus Cymru eu rhoi ar waith, fel y cydnabyddir gan y **cyn Brif Weinidog**, Mark Drakeford AS.

**17.** Mae'n ofynnol i'r Senedd a Gweinidogion Cymru weithredu a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU yn ôl y setliad datganoli a Chod Gweinidogol Llywodraeth Cymru. Mae **erthygl gan Ymchwil y Senedd** yn egluro gweithrediad cyfraith ryngwladol yn y Senedd.

**18.** Rydym yn gresynu nad yw proses Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn rhoi rôl ffurfiol i'r deddfwrfeydd datganoledig, gan gynnwys lle mae cytundebau rhyngwladol yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig, neu lle mae goblygiadau polisi sylweddol iddynt.

**19.** Nid yw gwaith craffu gan y Senedd ar gytundebau rhyngwladol bob amser yn bosibl o fewn cyfnod cychwynnol 21 diwrnod Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a

Llywodraethu 2010. Fodd bynnag, mae ein proses yn dangos bod mewnbwn gan ddeddfwrfeydd datganoledig yn bosibl ac y gall arwain at ganlyniadau pwysig.

**20.** Rydym o'r farn bod y Senedd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith craffu ar gytundebau rhyngwladol y DU yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys fel y nodir yn y cyflwyniad hwn. Mae'r Pwyllgor hwn yn falch o barhau â'r gwaith hwn.

**21.** Rydym yn parhau i fod o'r farn bod gwelliannau i waith craffu ar gytuniadau yn y DU yn hanfodol ac yn hir ddisgwyliedig. Mae'r safbwynt hwn, fel y'i mynegir yn rheolaidd yn ein hadroddiadau a'n cyflwyniadau ymchwiliad, yn un sydd gennym o hyd.

**22.** Rydym wedi cyflwyno tystiolaeth yn flaenorol i ymchwiliad y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, sef Craffu ar Gytuniadau Rhyngwladol a chytundebau rhyngwladol eraill yn yr 21ain ganrif, ac yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir i rôl llywodraethau a seneddau datganoledig, ac yn cefnogi ei alwad am ddigon o amser i ganiatáu i'n canfyddiadau gael eu cynnwys mewn modd ystyrlon ym mhroses graffu'r Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn San Steffan.

**23.** Rydym o'r farn mai dim ond elwa y byddai proses graffu seneddol y DU pe bai gan y deddfwrfeydd datganoledig rôl ffurfiol, lle mae ein barn yn cael ei chydnabod a'i chynnwys. Byddai hyn hefyd yn rhoi mwy o gyfle i aelodau Senedd y DU ymgorffori casgliadau pwysig o safbwynt datganoledig.

**24.** Yn ystod ein gwaith craffu, rydym yn nodi'n rheolaidd bod gwybodaeth am ddatganoli ar goll o ddogfennau cytundebau. Mae gwybodaeth fanwl am ddatganoli o gymorth mawr inni wrth i ni graffu ar oblygiadau pob cytundeb i Gymru. Ar ben hynny, mae'n cyflymu ein proses graffu, sydd yn ei dro yn cynyddu ein gallu i rannu ein barn â Senedd y DU o fewn cyfnod cychwynnol 21 diwrnod Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010.

**25.** Lle mae gwybodaeth wedi'i chynnwys, nid yw bob amser yn ddigon manwl i'r Pwyllgor hwn ei defnyddio i ddod i gasgliadau. Byddai gwybodaeth am ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig wrth ddatblygu cytundebau ac effaith cytundeb ar gymhwysedd datganoledig yn arbennig o ddefnyddiol. Ar y llaw arall, lle nad oes unrhyw waith ymgysylltu yn digwydd neu lle na ragwelir unrhyw effaith, mae'n ddefnyddiol i ddogfennau gadarnhau hyn.

**26.** Byddai cael fformat a dull cyson o gyflwyno gwybodaeth ar ddatganoli o gymorth i'r Pwyllgor yn ei waith craffu. Byddem yn croesawu gofyniad i gynnwys o leiaf wybodaeth benodol ar ddatganoli.

**27.** O ran gweithredu, rydym yn ailadrodd ein pryderon y gallai deddfwriaeth yn y cyfnod ers Brexit hepgor y Senedd gyda'r bwriad o weithredu cytundebau yn y dyfodol, gan gynnwys mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, drwy is-ddeddfwriaeth yn hytrach na deddfwriaeth sylfaenol a fyddai'n cael ei defnyddio'n gonfensiynol.

**28.** Rydym yn nodi ac yn croesawu cefnogaeth aelodau a phwyllgorau Senedd y DU, ac arbenigwyr allanol, ar gyfer cyfranogiad datganoledig mewn gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol.

**29.** Rydym yn estyn ein cynnig i gyfrannu at drafodaethau yn y dyfodol ar gyfranogiad datganoledig mewn gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol gyda Senedd y DU neu Lywodraeth y DU.